

Ymgynghoriad Technegol ar y Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 drafft

Enw: Dyfan Sion

Sefydliad (os yn berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

Cyfeiriad e-bost: post@cyg-wlc.cymru

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddiennw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch.

Cwestiwn 1

A yw'r diwygiad i is-adran (2BB), sy'n newid y cyfeiriad at '70 o ddiwrnodau' yn '182 o ddiwrnodau', ar gyfer diffinio'r cyfnod y mae'n rhaid bod eiddo neu eiddo cyfunol wedi cael ei osod mewn gwirionedd, yn glir? Os nad yw'n glir, sut y byddai'n bosibl ei wella?

Mae'r diwygiad yn glir.

Cwestiwn 2

A yw'r diwygiad i is-adran (2BB), sy'n newid y cyfeiriad at '140 o ddiwrnodau' yn '252 o ddiwrnodau', ar gyfer diffinio'r cyfnod y mae'n rhaid bod bwriad i eiddo fod ar gael i'w osod a'r cyfnod y bydd eiddo wedi cael ei roi ar gael i'w osod, yn glir? Os nad yw'n glir, sut y byddai'n bosibl ei wella?

Mae'r diwygiad yn glir.

Cwestiwn 3

A yw'r geiriad yn Erthygl 3 yn ei gwneud yn glir bod eiddo sy'n cael ei asesu cyn 1 Ebrill 2023 yn cael ei drin ar y sail ei fod yn bodloni'r trothwyon presennol?

Ydy.

Cwestiwn 4

A oes unrhyw faterion eraill yn codi o ran cymhwyso'r Gorchymyn drafft yn ymarferol?

Prif ddiben y diwygiadau arfaethedig yw mynd i'r afael ag effaith dwysedd uchel llety gwyliau tymor byr ar gymunedau a'r Gymraeg. Er mwyn llwyddo yn yr amcan hwn, bydd rhaid gweithredu'r Gorchymyn yn effeithiol. Dylai'r Llywodraeth fonitro effaith y Gorchymyn a gallu

adrodd ar nifer yr eiddo sy'n cael ei ddsbarthu fel llety hunanddarpar ac unrhyw newidiadau yn y niferoedd hynny yn y dyfodol.

Cwestiwn 5

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r ffordd y mae'r Gorchymyn Drafft wedi cael ei ddrafftio?

Dim sylw.

Cwestiwn 6

Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am yr effaith y byddai'r cynigion hyn yn ei chael ar y Gymraeg, ac ar y canlynol yn benodol:

- i. cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii. peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Yn y ddogfen ymgynghori, noda'r Llywodraeth ei bwriad i sicrhau bod eiddo hunanddarpar yn gwneud cyfraniad llawer mwy sylweddol i'r economi leol er mwyn cael ei ystyried yn fusnes. Mae'n bosibl y gallai datblygiad o'r math gyfrannu at gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg trwy warchod cynaliadwyedd cymunedau lle siaredir yr iaith. Dylai hefyd gyfrannu at reoli nifer yr ail gartrefi mewn cymunedau Cymraeg. Gallai hynny gael effaith gadarnhaol ar hyfywedd y Gymraeg yn yr ardaloedd hynny ond mae gwaith pellach i'w wneud i hwyluso mynediad pobl leol at y farchnad dai.

Cwestiwn 7

Eglurwch hefyd sut, yn eich barn chi, y byddai modd llunio'r cynigion, neu eu newid, er mwyn cael:

- i. effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii. dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nodwch ein hateb i Gwestiynau 4 a 6 os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 8

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw bwyntiau cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi.

Dim sylw.